CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
20 Mai 2014, Gosen, Llangwyllog
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, M Huws, W Williams, N Roberts (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D ap Rhobert, D Roberts, A Wyn, W Vaughan, A Williams, I Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng N Roberts (cynllunio), M Huws a W Williams (Neuadd Talwrn)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15 Ebrill 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Talwrn a Llangwyllog** - Darllenwyd adroddiad y Cyngor Sir am y cyfnod 15.07.13 - 22.07.13 (Talwrn) Bydd y Clerc yn gofyn am eglurhad ychwanegol oherwydd mae bocs wedi cael ei osod wrth ymyl yr eglwys ar ol y dyddiau hyn. Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb am gor-yrru yn Llangwyllog (mae'r arolwg wedi cael ei anfon at yr Heddlu)
4.2	**Palmant Talwrn** - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir **-** Nid oes gan y Cyngor ddim cyllid ar gyfer gwelliannau priffyrdd. Bydd y Cyngor yn ail ystyried pan fydd cyllid yn dod ar gael.
4.3	**Arwydd arafu Talwrn** - mae'r clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.4	**Golau stryd Talwrn** - mae'r gwaith wedi cael ei wneud
4.5	**Gwasanaeth bws Talwrn** - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir " Yn anffodus, o'r flwyddyn ariannol yma mae hi wedi bod yn angenrheidiol gwneud ychydig o doriadau i'r gwasanaethau bws hynny a weithredir o dan gontract i Gyngor Sir Ynys Môn"
4.6	**Giat mochyn** - mae'r Cyngor Sir am osod sbring ar y giat
	Llofnod…….Cadeirydd 17.06.14

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dirprwy Prif Weithredwraig
5.1	Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad - llythyr yn cynnig dyddiad ar gyfer yr hyfforddiant 29 neu 30 Hydref
	Priffyrdd
5.2	Gwasanaeth bws Talwrn - gweler 4.5
5.3	Llwybrau troed Talwrn - gweler 4.2
	Cynllunio
5.4	23C128D cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd a'r ysgubor presennol ynghyd a chodi annedd newydd, addasu'r fynedfa presennol ynghyd a gosod tanc septig newydd yn Bryn Poeth, Tawlrn - dim sylwadau
5.5	23C316 cais ol-weithredol i gadw ffens 2.3m ynghyd a chodi sied ar dir yn Clydfan, Coedana- dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Neuadd Talwrn - cais ariannol - penderfynwyd cynnig rhodd £600 Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
6.2	S Hughes, Tyn Ffordd Talwrn - Darllewnyd llythyr gan Mrs Hughes yn cwyno am y newidiadau yn yr amserlen bws ac oherwydd hyn, methu cyraedd dosbarthiadau ymarfer corff mewn amser. Bydd y Clerc yn ymateb ac yn awgrymu bod Mrs Hughes yn gofyn i'r doctor trefnu cludiant. Hefyd anfon ymlaen llythyr Mrs Hughes at y Cyngor Sir
6.3	Commonwealth War Graves Commission - Darllenwyd llythyr gan y Comisiwn yn gofyn os bydd y Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer bedd rhyfel oherwydd bod eglwys Llanddyfnan wedi cau. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Rheithor.
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfynwyd talu y canlynnol: Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio:
7.1	H Hughes £51.40
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**CoRWM** - Cynigodd Cyng D Morgan anfon y linc i'r wê at y Clerc, i'r Clerc cael anfon ymlaen at yr aelodau. Bydd y Clerc yn anfon enwau Cyng C McGregor a Cyng M Huws ymlaen i cynrychioli y Cyngor.
	Llofnod…….Cadeirydd 17.06.14